ABS. 1. 84. 73 (1-5)

# ARAETH

DROS

# Y BEIBL GYMDEITHAS

## Frytanaidd a Thramor,

A DRADDODWYD MEWN CYFARFOD

YN LLANWNDA, YN AGOS I GAERNARFON,

*Tachwedd 14eg, yny Flwyddyn* 1831.

GAN Y PARCH. I. HARRIS, TAL-Y-SARN.

Albion-wasg:

*CAERNARFON, ARGRAFFWYD GAN P. EVANS,*

Dros yr Awdwr.

1831.

## At y Darllenydd.

NID oeddwn, wrth draddodi y llinellau anmherffaith canlynol, yn meddwl eu cyhoeddi i'r byd, trwy yr *Argraff wasg*: ond ar gais amrywiol a'u clywodd, yr ydwyf yn ostyngedig yn ufuddhau i'w llais, gan obeithio y byddant, dan fendith Duw, yn foddion i gynnesu meddwl llawer at y Gymdeithas odidog hon.

Ydwyf, yr eiddoch yn rhwymau yr Efengyl,

**I. HARRIS.**

*Hafod boeth, Tach.* 14, 831.

# ARAETH

## *Dros Gymdeithas y Beiblau.*

Y MAE gennym yn awr ger ein bronau achos pwysig, sef achos y BEIBL GYMDEITHAS FRYTANAIDD A THRAMOR.

Llawer o bethau da a ddywedwyd yma yn barod, gan y brodyr teilwng a pharchus ag sydd ger ein bronau; ond er mor dda y dywedasant, ni fynegasant y cyfan. Y mae amryw bethau etto yn galw arnom i gynnorthwyo y gwaith da hwn. Y mae'r gosodiad ei hun,——Yr holl lafur a wnaethpwyd yn barod,—A'r hyn a wnaeth y Gymdeithas i ninnau,—Y'nghyd a gwerth y trysor ag y mae'r Gymdeithas hon yn ei gyfrannu i ddynion.

Fe ddylid cynnorthwyo y gwaith da hwn:—*O herwydd rhagoroldeb y gosodiad ei hun; sef, Cymdeithas.* Cymdeithas, cymmundeb cymmwys, cyfanwaith gymmorth i gymmod; Cymmanfa gymmeradwy er cymmedroli pethau da.

Y mae Cymdeithas yn sylfaen cadernid; oblegid pa bethau bynnag a wneir mewn Cymdeithas gydunol, y mae yno nerth; a pha agosaf y byddo'r Gymdeithas, rhagoraf y bydd y cymmundeb; a pha fwyaf fydd y cymmundeb, rhagorach fydd yr undeb gweithrediad. Llawer o olwynion a wnant fwy nag un. Cyd-gyssylltiad y tywod mân, a grym anian, a geidw y weilgi mawr o fewn ei derfynau. Cyd-weithrediad y Locustiaid a ddifa y gwellt. Cyd-lafur y medelwyr a wna yn fuan fedi y maes. Cyd-undeb ffynhonau a leinw y cornentydd, a chyd-arllwysiad y cornentydd a wna afonydd, a chyd-

undeb afonydd a wna gyflawnder o ddyfroedd i nofio llongau i'r cefnfor mawr. Felly y *Gymdeithas Feiblaidd* a ryd Feiblau i dylodion a Phaganiaid. Cymdeithas dynion a waith da, cymdeithas cariad i'w huno, trysorfa arian i'w sefydlu, a chymdeithas gweddiau drosti, y'nghyd a chyd weithrediad Trindod i'w llwyddo. Cymdeithas seintiau angylion, a Duw, a wna'r Nef yn ddedwydd. Cymdeithas gelynion a wna yr elyniaeth yn waeth; ond cymdeithas cariad, er yn ronynau, a'i gwna ef yn fflam angerddol. Cymdeithas llythyrenau a wna eiriau, a chyd-gyssylltiad geiriau a wna linellau, a chyd-undeb llinellau a wna Draethawd. Geiriau a llinellau ysbrydoledig trwy ddynion sanctaidd Duw a ddaeth yn Feibl; a'r Traethodau sanctaidd hyny a'i gwnaeth ef yn ddigon o Lyfr dwyfol, heb eisiau gosod dim atto, na thynu dim oddi wrtho dan boen cosb, Dat. 22. 18. Cymdeithas y gwahanol elfenau yn nghorph dyn sydd yn achos o'i barhâd bywiol, mewn gwahanol ysgogiadau (*motions,*) a'r galon wedi ei llunio yn y canol er gweithio y gwaed trwy y corph oll, a'r gewynau yn gwrthdaro yn ol, er rhoddi ail ergyd i'r galon. Mae Cymdeithas Llundain, sef y Fam Gymdeithas, fel y galon, yn ergydio'r gwaed Cristionogol ar led y byd, a ninau y Cymdeithasau Cynnorthwyol fel y gewynau bychain, wrth gyfrann, yn rhoi ail ergyd, neu yn gwrthdaro yn ol, er cadw y Fam mewn modd i roddi llaeth i fabanod diymgeledd; a dim ond i un o'r bysedd lleiaf gael gormod o oerfelgarwch i'r gwaed redeg trwyddo, fe deimlir hyny yn fuan yn y corph: am hyny na arosed neb o honom yn rhy bell oddi wrth y nefol dân, mewn llesgedd dwylaw; oblegid y mae'r Gymdeithas hon â'i huchel adsain dros yr eigion mawr yn gwaeddi, *Lleshâd, lleshâd!*

Mae hi yma yn debyg fel yr oedd hi wrth adeiladu y tabernacl gynt, lle i bawb weithio; os nad ellir rhoi llawer,

derbynir y rhodd leiaf; dimmai un, ceiniog y llall, swllt y cyffredin, a choron yr amaethwr, ïe, punt y gŵr da, a chant y gŵr mawr; a llwyddiant oddi ger bron yr Arglwydd. Gwnawn ddaioni: gelli di y tylawd fentro taflu dy geiniog, a hi a fathir yn ol i ti yn goron, ïe, a choron anllygredig. Yn y Gymdeithas hon y mae pob enwad Cristionogol mewn undeb cariadlawn yn gwneuthur daioni. Y mae y Gymdeithas â'i modrwyau aur yn edrych tu a phedwar cŵr y byd; ac nid oes niwed pwy a ddaw a'i drosol, ond iddo fod yn gynnorthwy i fyned a'r arch yn nês i dŷ Dafydd ein Brenin: am hyny, ni a ddylem ei chynnorthwyo, nid am ei bod yn Gymdeithas, ond am ei bod yn un dda; canys nid oes achos fod neb yn dylawd yn Eifionydd, Arfon, na Lleyn, heb Feibl; am hyny, tra y mae amser hau, y dyrneidiau yn aml, yr had yn dda, a'r gweddiau yn lliosog at Arglwydd y cynhauaf mawr.

Dylid cynnorthwyo y Gymdeithas hon:—*Canys y mae y clod a ennillasom yn barod yn galw yn uchel arnom i barhau, rhag i neb ddwyn ein Coron.* Nid ydym wedi bod yn llesg, er y gallasem wneud ychwaneg; etto gwnaethom ormod o ddaioni i eraill ei ddwyn ef. Sefydlwyd Cymdeithas y Beiblau er ys tu a Saith ar hugain o flynyddoedd yn ol; a'r casgliad cyntaf a wnawd iddi oedd yn odidog ragorawl; sef £ 690 10*s.* 2*d.* Ac o'r amser hyny hyd yn hyn, buwyd yn casglu yn ddiflino, hyd nes y mae y cyfan a gasglwyd yn *Un miliwn, saith gant, a thri ugain a phedwar ar bymthego filoedd; naw cant, a thair ar ddeg a thri ugain o bunnoedd, pum' swllt, a phum' ceiniog.* Gwelwch ynte mai nid am ddim y traddodwyd yr areithiau hyawdl, ac y cynneswyd meddyliau cynnulleidfaoedd fel ag sydd yma heno. O na, y mae rhai diwyd wedi bod o'n blaen ni, er dilêu meddyliau dynion tywyll, ac ymlid y tywyllwch Aiphtaidd ar ffo. Gan eich bod wedi torri cymmaint o'r

graig, dilynwch y wythien arian; a mynwch afael yn y *perl*. Gan eich bod wedi bwrw y llong i'r môr, ac hefyd wedi cael sicrwydd fod ei *chêl* wedi gadael y llawr; codwn yr hwyliau, a chyfarwyddwn ein llestr i'r porthladd llwyddiannus. Gan ein bod wedi gosod sylfaen yr adeilad, ac hefyd wedi codi y muriau mor uchel, pabam y gorphwyswn nes ei gael yn annedd diddos. Gan ein bod wedi chwynu cymmaint ar yr ardd, ymgeleddwn yr egin grawn. Yr ydym wedi cerdded yr anial garw, na lwfrhawn ar y ffordd dêg a gwastad. Yr ydym wedi ysgrifenu y *fond*, seliwn hi etto. Gellir dywedyd gyd a'r Apostol, fod ein 'Iachawdwriaeth yn nês na phan y credasom;' yr ydym yn nês at ein gwobr; am hyny, gan ein bod wedi torri yr Osgordd-res, gorphenwn ladd gelynion croes Crist. Byddwn yn debyg i Apostol mawr y Cenhedloedd, "Mi a ymdrechais ymdrech deg, mi a orphenais fy ngyrfa, mi a gedwais fy ffydd: am hyny rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi." Yr ydym wedi cael dechreuad da; mae'r peiriant mewn gwaith, rhown dân tani, dwfr i'r olwyn, hwyliau i'r llong; arian at y *Gymdeithas*, gweddiau at Dduw; oblegid mae'r Ysbryd y'ngweddill.

Gwelir hefyd yn amlwg na ddylem attal ein rhoddion, a meddwl nad oes dim yn deilliaw o gyfranu: O na, nid felly y mae. Nid am ddim yr ydych yn rhoddi; ond y mae y tân yn cynnen, yr agerdd yn cerdded, a'r llong yn nofio, a *harbwr* llwyddiant yn ymyl. Gan hyny daliwn yr hwyliau i fynu. Clywaf y dwyfol wynt yn chwibanu yn yr hwylbren, a'r llef yn dywedyd y cawn y lan, er o braidd. Y mae y Gymdeithas hon wedi Argraffu o Feiblau a Thestamentau yn barod, *Un miliwn, pedair mil ar hugain, saith gant, a saith ar hugain.*

Ac nid i wledydd estronol yr aethant yn unig, ond y mae bronau maethlon y Gymdeithas wedi rhoddi sugn i dylodion

Cymru; ac y mae y wlad hon wedi ei hanrhegu â *Chant ac un ar bymtheg o filoedd, saith gant, a saith ar hugain* o honynt. Am hyny, blant, cofiwch eich Mam, tra yr ydych yn gallu gofalu drosoch eich hunain; oblegid dyledus ydych i'r Gymdeithas am eich Beiblau, a'ch gwybodaeth, braidd. Mae y Gymdeithas hon yn cynnyddu yn ei haelodau, yn ei llwyddiant, ac yn ei dysg. Dyma y foneddiges fwyaf dysgedig a sangodd ar y tir Brytanaidd erioed: er nad yw hi etto ond saith ar hugain oed, mae hi wedi dysgu llawer. Cyfrifem y ferch hòno yn ddysgedig a allai afaelu yn llaw y Frangcwr a'r Sais, a'u heddychu â'u gilydd, yn eu hieithoedd eu hunain; ond dyma un ddysgedicach o lawer. Gafaela hon yn llaw tu a saith ugain, a thri ar ddeg o ddynion gwahanol ieithoedd yr un pryd, ac a lefara dangnefedd iddynt yn eu hieithoedd eu hunain. Mae ei hiaith yn rhydd, ei llais fel udgorn arian, a'i hathrawiaeth yn addas i'r pechadur, fel piler prês mewn mortais arian. Y mae y Gymdeithas hon yn gymmorth i ni, a ninau yn cynnal y Gymdeithas; ac nid llonydd a fyddwn, nes y byddo y byd oll wedi clywed am y Tywysog Iesu, a bechgyn duon Ham wedi cael Beiblau. Y mae y Gymdeithas hon hefyd, y'nghyd a'r gelfyddyd o Argraffu, wedi bod yn annhraethol dda. Buwyd cyn hyn yn talu am *gopi* o'r Beibl, *ddau gant o Bunnoedd!* ond yn bresennol cawn Feibl addas i'r hên ŵr penwyn i'w ddarllen, am o *bedwar swllt* i *goron.* Trwy gyfrwng hon y mae'r holl wledydd Ewropaidd, braidd, wedi cael Beiblau Pe yr aech i'w Masnachdy hi yn Nghaerludd, gwelech olwg yn ddigon i beri i'r Cerub synu, wedi gweled y Beiblau a'r Testamentau, wedi eu bwndelu y'nghyd a'u cyfarwyddo *(directed)* hwynt fel y canlyn, un i *Madagascar, Otaheite, Lattakoo, Corfu,* a *Malta, Madras, Cape Town, China, Siam, Malacca, Singapore;*

ïe, anrhega *Pinang*, a *Java*. Mae yn ysgrifenedig a ei hegwyddor fawr, BEIBL I'R HOLL GENHEDLOEDD.

Nid pleidlais ochrog sydd ganddi at ryw blaid grefyddol ond llwyddiant i deyrnas yr Emmanuel, ac ymlid gelyn ein heneidiau ar ffo.—Wele gwnawn ein goreu gyda'r Gymdeithas i roddi'r

Llyfr doeth yn gyfoeth i gyd,——wych lwyddiant,
A chleddyf yr Ysbryd,
A Gair Duw y nef hefyd,
Beibl i bawb o bobl y byd.

Gellir dywedyd fod y Gymdeithas yr ydym heno yn ei phleidio yn seren o'r maintioli mwyaf yn ffurfafen yr Eglwys Gristionogol, ac nad oes dim yn fwy o gymmorth er treiglo y garreg a ddaeth o'r mynydd yn mlaen, na chryfion drosolion Cymdeithas Llundain, y'nghyd a'r rhai a'i cynnorthwyant; a'i bod fel maen o'r maintioli mwyaf gan Gristionogion yr oes hon, ar enau y ffau uffernol, a sêl y Brenin tragywyddol arni.

Y mae Cymdeithasau yn Brydain i wisgo'r noethion, a Chymdeithasau i borthi y newynog, oes, y mae hefyd Gymdeithasau i wellâu y cleifion; ond nid am y rhai hyny yr ydym yn son yn awr: y mae hon yn rhagorach nag un a enwyd. Cymdeithas enwog arall, ac yn nesaf i hon, yw y Gymdeithas Genhadawl; ond y mae yn rhaid rhoddi y flaenoriaeth i hon etto; oblegid gall fod anmherffeithrwydd yn ein brodyr anwyl a anfonir, ïe, ac yn y rhai a'u hanfonant: (yn barchus y dymunwn siarad.) Ond yn y Gymdeithas yma nid oes ond Beibl noeth, heb un Esponiad arno, fel y daeth *o enau Duw;* a llwyddiant iddi er lledu ei swn i bellderau y byd. Er fod yr hen dadau a fu a'u trosolion addurnedig trwy'r modrwyau aur wedi meirw,

mae Arglwydd y babell yn gofalu am weision ffyddlon etto i gadw ei dŷ. Er fod y cedyrn yn syrthio, mae'r Cadarn yn fyw.

*Ymae gwerth y trysor a gyfrana'r Gymdeithas hon i ddynion, yn dangos y dylem ei phleidiaw.* Y Beibl yw ei sylfaen, a'r Beibl yw ei rhodd.—Groeg ***Biblos***, a arwydda barch ac anrhydedd, y'nghyd ag enwogrwydd y Beibl. Geilw yr Iuddewon ef *Micra*, y Llith, y Llyfrau cyssegredig, Oraclau Duw, y Gyfrol ysbrydoledig, Llyfr Duw, Llyfr y llyfrau, Geiriau oddi wrth Dduw at ddynion, trwy ddynion. Mae gwerth y Beibl mor fawr, fel na's gellir ei brisio. Gwerth enaid yw gwerth y Beibl, a gwerth gwaed Emmanuel yw gwerth enaid.

Mae henafiaeth y Beibl yn dangos ei werth. Nid oes un llyfr mor hen mewn bod a'r hen Destament. Mae yn rhagori ar ysgrifeniadau hyawdl yr hynafiaid. Ysgrifenodd Herodotus, y rhydd Areithiwr hynaf, yr hwn a elwir gan Cicero, yn Areithiwr ffraeth-gall, yn dad Hanesyddiaeth: ei hanes ef a gawn tu a'r amser y gorphenwyd yr hen Destament. Ac hyd yn oed Homer, Tywysog Barddoniaeth, er iddo ef ddangos ei wybodaeth gelfyddgar yn mhell o flaen Herodotus, ni welwyd gan y byd ddim o hono, ond tu a phum' cant o flynyddoedd ar ol Moses yr Ysgrifenwr sanctaidd cyntaf.

Os perchwch henafiaeth, perchwch yr hynaf oll; a hen wr yn hen barchu'r Beibl, sydd yn deilwng o hen barch dau-ddyblyg. Hefyd, mae ehangder, a helaethlawndeb, y'nghyd ag amrywiaeth y Beibl yn dangos ei ragoroldeb. Dengys hwn o greadigaeth y byd hyd ymddangosiad y Messiah yn y cnawd; ïe, yn ol i'r cudd-léni Tragywyddol, cyn bod y byd. Yma y mae hanes am gariad Trindod cyn amser. Mynega am lwyddiant ac aflwyddiant yr Efengyl, y'nghyd a'r achosion o hyny.

O! y fath ehangder difesur a gynhwysa hwn; y fath anferth barhâd o amser, a'r fath amryw fath o ddigwyddiadau; ac oddi wrth hyny amrywiaeth mewn cyfansoddiad. O ehedfa Esaiah, i lawr i dduil eglur a diaddyrn Amos bugail Tecoa.

Mae Esgob Lowth wedi dywedyd fod pob math o gyfansoddiad da yn y Beibl. Gellir, fe allai, ddywedyd,—Mai Esaiah yw y mwyaf goruchel, Dafydd y mwyaf hynaws, a Job y mwyaf darluniadol, o'r holl brydyddion ysbrydoledig. Mewn gair, carrio darluniadau *(Maps)* y bydoedd yw carrio'r llyfr hwn. Ni chawn wybod pob peth o fewn i du dalenau y byd; oblegid, fe'i treiwyd hi gan rai; a gellir dywedyd, er

Chwilio i bwnc echl y byd,
Wedi chwilio, dychwelyd——

heb fawr wybodaeth; ond trwy hwn, (sef y Beibl,) gallwn esgyn i Nef y gogoniant, a gwybod llawer pa fodd y mae hi yno. Gwna, fe gwyd y Beibl ddnon lèni uffern, a dengys resynoldeb y lle hwnw; ïe, i'r farn gyffredinol, a thragywyddoldeb pell.

Nid yw y gwaith mwyaf clodwiw, ond megis seren unigol ar ei phen ei hun; ond y mae y Beibl fel swp o ser goleudeg yn chwareu mewn cylchoedd difesur, a Christ fel haul y'mlith y llu, y'nghanol y *Meridian* byth. Mae yma addewidion a bygythion, ond nid yw'r bygythion byth fel cudd-frychau (*Eclipses*) dros yr addewidion: ond y mae'r byd hwn heb osgoi dim o'i le, er y rheswyd y llinellau yn eu cylchoedd. Fe holltodd Creigiau Judea, pan y dyoddefodd yr Emmanuel ar y bryn; ond fe safodd creigaidd addewidion y Gair: a phan oedd yr addewidio, am dri o'r gloch prydnhawn, yn codi mewn gwawr anfarwol, dros y bryniau Tragywyddol draw, yr oedd ser natur fel yn ymguddio o'r golwg; ond pan y dilëuwyd Haul

awr y Cyfiawnder, fe guddiodd haul naturiol ei wedd ewn cywilydd, neu alar, a gresynodd am y peth! Ac fe aif pob iot o'r Gair, er i'r nefoedd fyned heibio gyda twrf, a'r defnyddiau gan y gwres yn toddi. Er i'r planedau drolio tros eu cylch deddfol, bydd cadarn sail Duw n sefyll yn y byd ysbrydol hwn; oblegid mae ei gylch 'n ehangach, a'i sail yn ddyfnach.

Maes helaeth, mwy ei sylwedd,——iawn fedrus,
Anfeidrol ei rinwedd;
Gair anwyl y gwirionedd;——
Byd yw hwn, bywyd a hedd.

Gellir dywedyd etto, er fod henafiaeth y Beibl felly, a'r meusydd a gerddodd yn anfesurol, fod Gair ei dudalenau mewn newydd-deb ieuengctid, mewn cyssylltiad â'r hybarchedd hyny o heneiddrwydd. Nid yw wedi colli dim o'i nertholrwydd a'i fywioccäad, yn llithriad cynnifer o oesoedd. Y mae yn meddu ar sylwedd byth barhaus; y mae ei lygaid mor graff i ganfod dy bechod ag amser boreuaf y byd: a da i bawb ei ddarllen; obegid, hwn sydd

Rawn sypiau gwybodau byd,——mae'n lesol,
Melus-waith y bywyd,
Hyfrydawl a fwriadwyd;
Mêl o hwn er mael o byd.

O hono llifo mae llaeth,——a manna
Dymunol yn helaeth;
I eneidiau win odiaeth,
Er iachus wiw felus faeth.

Mae'r Gair sanctaidd yn newydd o hyd, ac yn ei flas bob amser; tân heb ddiffodd, goleuni heb ballu, haul heb faehludo, perffaith gyfreithiau, a gloyw ddwfr:—ïe, megis pysgodlyn y credadyn.—Am hyny, prynwch y Beibl,—darllenwch y Beibl,—byddwn byw dan ei gyfar-

wyddiadau. Mae yn gyfaill yn y byd, yn yr ystormydd; bydd yn gyfaill yn angau, yn y tónau; a chyfaill yn y farn i'n clirio. Mae yn rhwydd i'w gael, yn oleu i'w ddeall, ac yn rhesymol i'w gredu. Os na elli di y tylawd gael modd i'w brynu, mae'r Gymdeithas ag ydym yn ei phleidio heno yn foddlon dy anrhegu âg ef am ddim.

Gwelwn, wrth ddiweddu, fod y gwaith hwn yn ei amcan yn galw ar bob Cristion i'w bleidio, a phob dyngarwr. Gwelwn Ethiopia a'r tywel gwyn yn ei llaw yn sychu'r gruddiau duon, wedi cael Beibl; Affrica â'r ddwy law ddu yn troi gwynion ddail y Gair; ïe, y mae swn clodforedd megis yn dechreu;—swn y dyfroedd a glywyd;—swn y daran y sydd;—yr ydym yn disgwyl y telynau i chwareu. Mae pob peth fel am i'r gwaith da hwn lwyddo. Gorweddodd yr Angel yn hir a'i adenydd megis yn cael eu cynnesu ar yr auraidd drugareddfa; ond y mae yn dechreu er ys tro gwmpasu y byd;—yn ehedeg y'nghanol y Nef, &c. Y mae'r gwaith hwn yn deilwng ei bleidio, pe na byddai ddim ond un enaid yn cael ei achub trwy gyfrwng y Gymdeithas; ond nid rhaid i ni betruso dywedyd yn hyf, Mae wedi bod yn fendith yn llaw Duw i droi miloedd o'r tywyllwch. Gobeithio y câf glywed, cyn ychydig o ddiwrnodau, fod ardal Llanwnda, Llanllyfni, ïe, Llandwrog, Tal-y-sarn, y'nghyd a holl ardaloedd Caernarfon, wedi penderfynu gwneud eu goreu. Tawaf yn bresennol, ond na thawed tafodiaith y Gymdeithas tra b'o neb heb y Llyfr goleudeg hwn.

⁂ *Eisteddodd i lawr ar ol adrodd amryw o hanesion gwerthfawr.*

## TERFYN.

Caernarfon, argraffwyd gan Peter Evans.

[illegible]

Evan Thomas
Gaften
Llanrwst
un gwir ber-
chenog y llyf
ur hwn ai
Oed yw 11
1877